WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1887A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Steve Wyndham, Ian Phillips a Gareth Rees dan gyfarwyddyd Huw Rees ac Anthony Veale.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond gellid cryfhau agweddau ar ei waith cynllunio ariannol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond gellid cryfhau agweddau ar ei waith cynllunio ariannol 6

- Gallai cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor fod yn fwy cynhwysfawr 6
- Er bod y Cyngor yn tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan, ceir gorwariannau sy'n tyfu mewn rhai meysydd gwasanaeth 8
- Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion diweddar 9
- Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 10
- Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor 12
- Mae gan y Cyngor ddull darbodus o ran benthyca 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: Ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £226.1m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 4,855 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £662.9m**

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn ym mhob awdurdod yng Nghymru am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: Ffynonellau Refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian a gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond gellid cryfhau agweddau ar ei waith cynllunio ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- gallai cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor fod yn fwy cynhwysfawr;
- er bod y Cyngor yn tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan, ceir gorwariannau sy'n tyfu mewn rhai meysydd gwasanaeth;
- nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion diweddar;
- mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy;
- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor; ac
- mae gan y Cyngor ddull darbodus o ran benthyca.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, ond gellid cryfhau agweddau ar ei waith cynllunio ariannol

### Gallai cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor fod yn fwy cynhwysfawr

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom y gallai cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor fod yn fwy cynhwysfawr. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn diwygio'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn flynyddol a chyhoeddir diweddariad arall i aelodau ar adeg y broses flynyddol o bennu'r gyllideb.
- diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystod mis Hydref 2019 ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2022-23, gan ragfynegi diffyg yn y gyllideb o hyd at £14.9 miliwn dros y cyfnod o bedair blynedd. Bydd codiadau gwirioneddol yn y dreth gyngor, defnydd o gronfeydd wrth gefn, setliadau Llywodraeth Cymru a'r arbedion a adnabyddir ac a gyflawnir yn effeithio ar y rhagfynegiad dros y cyfnod hwnnw.
- mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o dybiaethau wrth gyfrifo'r diffyg hwn. Er enghraifft, tybiwyd na fydd unrhyw gynnydd neu y bydd gostyngiad o 1% yng ngwerth y setliad gan Lywodraeth Cymru o un flwyddyn i'r llall dros y cyfnod.
- ategir y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan Strategaeth Creu Incwm, sydd i fod i gael ei hadolygu yn 2020.
- canfuom fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan y Cyngor i bennu'r sefyllfa ariannol a ragamcanir dros y tymor canolig a'r opsiynau sydd ar gael i ymdrin â'r bwlch o ran y cyllid. Fe'i defnyddir hefyd i helpu i oleuo'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb refeniw.
- gallai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fod yn fwy eglur o ran manylu ar yr amryw offer ac opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor i ymdrin â'r bwlch o ran y cyllid. Er enghraifft, gellid cynnwys ystod o ddeilliannau, a'r rheiny'n amrywio

o'r deilliannau gorau a amcangyfrifir i'r rhai gwaethaf a amcangyfrifir, ac yn ystyried yr ansicrwydd ynghylch pwysau o ran costau a chyllid gan Lywodraeth Cymru ynghyd â'r amryw ddatrysiadau i bontio'r bwlch o ran y cyllid, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn, incwm o'r dreth gyngor, cyfleoedd i greu incwm a chynlluniau arbedion.

- wrth fodelu ei gyllideb a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig nid yw'r Cyngor yn cynnwys unrhyw incwm ychwanegol o'r dreth gyngor, na chodiadau cysylltiedig mewn gwariant, sy'n deillio o'r adeiladau newydd y bwriedir eu hadeiladu yn ardal y Cyngor. Gallai'r incwm/gwariant ychwanegol fod yn sylweddol o ystyried graddfa datblygiadau adeiladu preswyl newydd ledled Bro Morgannwg. Er enghraifft, mae adroddiad monitro'r Cynllun Datblygu Lleol i'r Cabinet ym mis Hydref 2019 yn cadarnhau bod 6,195 o anheddau a gymeradwywyd yn dal heb eu hadeiladu eto.
- roedd y setliad dros dro ar gyfer 2020-21 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019 yn rhoi cynnydd o 4.9% yng nghyllideb refeniw'r Cyngor. Mae cyfrifiadau cychwynnol gan y Cyngor yn dynodi y bydd hwn yn lleihau'r diffyg rhagamcanol i £10.596 miliwn o £14.9 miliwn.

## Arddangosyn 3: Y Bwlch o ran Cyllid a Ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y flwyddyn hon, a'r tair blynedd ddilynol. Nid yw'r ffigwr ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu'r ffigwr wedi'i ddiweddaru yn dilyn y setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019.



## Er bod y Cyngor yn tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan, ceir gorwariannau sy'n tyfu mewn rhai meysydd gwasanaeth

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom, er bod y Cyngor yn tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan, ceir gorwariannau sy'n tyfu mewn rhai meysydd gwasanaeth. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyflawnodd y Cyngor danwariannau yn y gyllideb refeniw net o £5.836 miliwn yn 2018-19 a £6.71 miliwn yn 2017-18.
- mae'r Cyngor wedi gorwario'i gyllidebau refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau gwastraff. Mae'r gorwariannau hyn wedi mwy na chael eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn cyllidebau eraill, gan dderbyniadau treth gyngor uwch nag a gyllidebwyd (£1.7 miliwn yn 2018-19 ac £1.5 miliwn yn 2017-18), a chan gost benthyca is nag a gyllidebwyd (£3.0 miliwn yn 2018-19 a £3.2 miliwn yn 2017-18).
- mae gwerth cyfanredol y tanwariannau hyn dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn. O ystyried hyn a'r heriau tebygol sy'n wynebu'r Cyngor, bydd angen iddo'i argyhoeddi ei hun bod y cyllidebau a bennwyd ar gyfer y meysydd hyn lle ceir gorwariant a thanwariant yn gadarn ac yn seiliedig ar dybiaethau realistig.
- roedd adroddiad monitro'r gyllideb refeniw ym mis 5 yn rhagfynegi gorwariant o £4 miliwn ar gyfer 2019-20, er na chynhwyswyd unrhyw gyfrif na sylwebaeth yn yr adroddiad ar gyfer unrhyw ddeilliant ffafriol posibl mewn perthynas â chasglu'r dreth gyngor a chostau benthyca, nac ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol posibl yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a allai leihau neu nadu'r sefyllfa hon o orwariant a ragamcanir. Fodd bynnag, mae adroddiad monitro'r Cyngor i'r Cabinet ym mis 9 yn cynnwys cyfeiriad at yr incwm ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'r alldroeon ffafriol a ragamcanir o ran taliadau cyfalaf a'r dreth gyngor yn rhagweld tanwariant refeniw o ryw £2.8 miliwn ar gyfer 2019-20.

Arddangosyn 4: Swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma yn ôl y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019.

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £215.7m | £209.0m | Gwarged o £6.7m | Gwarged o 3.1% |
| 2018-19 | £222.1m | £216.3m | Gwarged o £5.8m | Gwarged o 2.6% |
| 2019-20 | £226.1m | £223.3m | Gwarged o £2.8m | Gwarged o 1.2% |

## Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion diweddar

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom nad yw'r Cyngor wedi cyflawni ei dargedau arbedion yn ddiweddar. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion ar gyfer y naill a'r llall o'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf:
  - 2018-19 – arbedion o £5.172 miliwn wedi'u cyflawni yn erbyn targed arbedion wedi'u cynllunio o £6.298 miliwn (diffyg o 17.9%); a
  - 2017-18 – arbedion o £3 miliwn wedi'u cyflawni yn erbyn targed o £4.017 miliwn (diffyg o 25.3%).

- pennodd y Cyngor darged arbedion o £3.020 miliwn ar gyfer 2019-20. Mae'r Cyngor yn rhagfynegi ar hyn o bryd y bydd yn cyflawni arbedion o £2.434 miliwn (diffyg o 19.4%).
- er bod tanwariannau yng nghyllidebau meysydd gwasanaeth eraill wedi helpu'r Cyngor i gyflawni sefyllfa ariannol ffafriol, o ystyried yr heriau ariannol tebygol sy'n ei wynebu mae'n bwysig ei fod yn pennu ac yn cyrraedd targedau arbedion realistig.

12 Er y bydd arbedion o ryw £10.6 miliwn wedi cael eu cyflawni neu eu rhagamcanu i gael eu cyflawni dros gyfnod 2017-18 i 2019-20, canfuom fel a ganlyn:

- ffawdelw byrdymor yw rhai arbedion. Er enghraifft, fe newidiodd y Cyngor y polisi cyfrifyddu ar gyfer ei Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a arweiniodd at ostyngiad o £1.6 miliwn yng nghostau refeniw 2018-19, a oedd yn 31% o'r arbedion a gyflawnwyd yn y flwyddyn honno.
- toriadau i gyllidebau mewn meysydd gwasanaeth yn hytrach nag arbedion a gyflawnwyd trwy ddarparu gwasanaethau'n wahanol ac yn fwy effeithlon yw rhai arbedion, er mai barn y Cyngor yw y gellid ystyried bod y dull o reoli gostyngiad yn y gyllideb mewn rhai meysydd yn gyfystyr ag arbedion, os nad effeithir yn anffafriol ar lefel yr allbwn a'r ansawdd.

### Arddangosyn 5: Arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£6.3m** | **£5.2m** | **£1.1m** | **17.9%** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

## Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

13 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb

refeniw sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

14 Canfuom fod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy’r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac ar 31 Mawrth 2019 roeddent yn £78.3 miliwn.
- roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 31 Mawrth 2019 yn £13.6 miliwn, a oedd yn uwch na’r lefel ddarbodus o £10 miliwn a bennwyd gan y Cyngor, fel a bennwyd gan y Swyddog Adran 151.
- mae’r Cyngor yn bwriadu defnyddio £2 filiwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2019-20 ac £1 filiwn bellach yn 2020-21 i fynd i’r afael â phwysau ariannol a mantoli ei gyllideb.
- hefyd, mae’r Cyngor yn bwriadu defnyddio rhyw £20 miliwn o’i gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi yn 2019-20. Mae hyn yn gysylltiedig yn bennaf â defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf o fewn meysydd gwasanaeth Addysg a Gwastraff. Disgwylir i hyn ostwng balans y cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi ar y cyfan i £44.9 miliwn.


## Arddangosyn 6: Swm y Cronfeydd Wrth Gefn o’i gymharu â’r Gyllideb Flynyddol, 2018-19

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o’i gymharu â’i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£222.1m**

Cyllideb Refeniw Net



**£78.3m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy (Cronfeydd wrth gefn cyffredinol £13.6m a Chronfeydd wrth gefn wedi’u glustnodi £64.7m)



**35.2%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o’r Gyllideb Refeniw Net

## Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

15 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig.

### Yr hyn a ganfuom

16 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor.

17 Mae'r Cyngor yn casglu'r mwyafrif llethol o'i ddyled treth gyngor. Ar gyfer 2018-19 casglodd y Cyngor 97.7% o'r dreth gyngor, a oedd yn uwch na'r gyfradd gasglu a gyllidebwyd, sef 97.5%.

### Arddangosyn 7: Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £76.2m ([97.7%]) o'i gymharu â debyd casgladwy o £78m

## Mae gan y Cyngor ddull darbodus o ran benthyca

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

18 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu

gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom fod gan y Cyngor ddull darbodus o ran benthyca. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor yn benthyca unrhyw arian i ariannu unrhyw weithgareddau masnachol; ac
- rhyw £156 miliwn oedd cyfanswm y lefel fenthyca ar 31 Mawrth 2019.


### Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Cyfanswm yr arian a fenthyciwyd i ariannu buddsoddiadau masnachol



**3.52%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru